FOR IMMEDIATE RELEASE

**Commonwealth Sport welcomes S4C as Welsh-language broadcaster for Glasgow 2026 Commonwealth Games**

**Friday 12 June 2026 -** Commonwealth Sport has today announced that S4C will provide live Welsh-language coverage of the Glasgow 2026 Commonwealth Games, marking the first time the broadcaster will deliver live coverage of the Commonwealth Games.

Coverage will run from Friday 24 July to Sunday 2 August, featuring ten days of competition across ten sports and a record-breaking Para sport programme, with 47 medal events across six disciplines.

The partnership will ensure audiences across Wales can follow every moment of Team Cymru's journey at Glasgow 2026, the 23rd edition of the Commonwealth Games.

**Katie Sadleir, Chief Executive of Commonwealth Sport, said:** "We are delighted to welcome S4C as an official broadcast partner for Glasgow 2026. The Commonwealth Games are unique in bringing together athletes and communities from across our 74 nations and territories, and it is fantastic that Welsh-speaking audiences will be able to experience the excitement, drama and inspiration of the Games **live** in their own language for the first time.

"This partnership reflects our commitment to making Glasgow 2026 as accessible and inclusive as possible, ensuring more people can connect with the moments that make the Commonwealth Games so special."

Lauren Salter will present S4C's coverage, alongside Alun Williams, who will report live from Glasgow each evening.

**Lauren Salter said:** "It's an honour to be hosting S4C's coverage of the Commonwealth Games. What a privilege for our athletes, at the top of their game, to represent their nation on the world stage. I'm looking forward to watching Tîm Cymru bring home the medals and making Cymru proud."

**Llion Iwan, S4C's Chief Content Officer, said:** "S4C is delighted to broadcast live coverage of the Commonwealth Games for the first time. As the only multi-discipline sporting event where Wales competes as Wales, we are proud to fly the flag for Tîm Cymru in Glasgow. From poolside to trackside, viewers will get to witness all the unmissable moments on S4C, the Home of Welsh Sport."

Wales is one of only six nations to have competed at every Commonwealth Games since the event began in 1930.

**Team Cymru Chef de Mission Gethin Jones said:** "As we look ahead to what promises to be an inspiring and unforgettable campaign in Glasgow, we know viewers back home will be rooting for our athletes throughout the competition, and we are thrilled that S4C will be bringing them all the action from the Games."

**Phil Batty OBE, Chief Executive of Glasgow 2026 said:** "From the very start we've wanted Glasgow 2026 to be a Games that everyone can feel part of, wherever they are and whatever language they speak. Welcoming S4C as our Welsh-language broadcaster does exactly that, giving audiences across Wales the chance to follow Team Cymru's every move

from poolside to trackside. We're proud Glasgow will be the stage for these moments and proud that S4C will help share them with Welsh-speaking fans."

S4C's Glasgow 2026 coverage will be produced by Sunset+Vine.

The Glasgow 2026 Commonwealth Games will take place from 24 July to 2 August 2026, bringing together athletes from across the Commonwealth for ten days of world-class sport and celebration.

**ENDS**

**Notes to Editors**

**Contacts**

**Commonwealth Sport:**

Rob Arnott, Head of Media & Communications - rob.arnott@commonwealthsport.com / +44 (0) 7787 841604

**S4C:**

Sara Maredudd Jones, Communications Officer - Sara.Maredudd@s4c.cymru / 0330 5880 369

**Team Wales:**

Cathy Williams, Head of Engagement - cathy.williams@teamwales.cymru / +44 (0)7786 336007

## About Commonwealth Sport

Commonwealth Sport is the organisation with responsibility for the direction and control of the Commonwealth Games and Commonwealth Youth Games, and for delivering the vision of the Commonwealth Sport Movement: 'Our Commonwealth, united through sport'. Our mission is to deliver inspirational and impactful Games; to excite and empower Athletes and young people; and to drive equality in sport and society across the Commonwealth.

Established in 1930, the Commonwealth Sport Movement brings together 74 independent nations and territories creating a diverse Commonwealth community of over 2.5 billion individuals, representing one-third of the world's population. Together we stand as a beacon of unity, diversity, and equality, completely integrating Para athletes, driving gender equality and advocating for legacy and social change through sport.

## About S4C

S4C is a public service broadcaster and the only Welsh language television channel in the world. S4C distributes a wide range of programmes including drama, documentaries, news, music, entertainment, live sport and children's programmes. Online content includes HANSH a unique brand with content aimed mainly at 16-34-year-olds. S4C Clic – S4C's player and on demand service provides exclusive content, catch up, archive material and box sets. All S4C content is also available on demand via BBC iPlayer.

## About Team Wales

Commonwealth Games Wales (CGW) is the lead body for Commonwealth sport in Wales and is responsible for selecting, preparing and leading Team Wales at the Commonwealth Games and the Commonwealth Youth Games.
Commonwealth Games Wales is one of 74 Commonwealth Games Associations who are members of the Commonwealth Games Federation (CGF).

Team Wales is one of only six nations that has competed in every Games since it began in 1930, then known as the Empire Games.

The Gold Coast 2018 Commonwealth Games were Team Wales's most successful Games, winning 36 medals (10 Gold, 12 Silver, 14 Bronze), and finishing 7th on the medal table. The last Games in Birmingham 2022, saw Wales win 28 medals across 15 sports.

## About Glasgow 2026

Glasgow 2026 promises an altogether brilliant Commonwealth Games, taking place from 23 July to 2 August and combining world-class sport with a future-focused vision delivered through the vibrant spirit of the city. Set within a concentrated eight-mile corridor, the Games will feature 10 sports and six Para sports, across four iconic venues, including Scotstoun Stadium, the Scottish Event Campus (SEC), the Sir Chris Hoy Velodrome & Arena and Tollcross International Swimming Centre.

Highlights include a record-breaking Para sport programme, the biggest Track Cycling, Swimming and 3x3 Basketball competitions in Commonwealth Games history, and the return of the Commonwealth Mile in Athletics.

Alongside the Games, the Glasgow 2026 Festival will feature a vibrant programme of culture, music, sport and community-led celebrations. Running from 23 May to 9 August, the Festival will feature world-class creative talent alongside local events delivered by community groups and sports clubs. With opportunities for people of all ages to get active and get involved, it will create a citywide celebration that brings communities together, inspires participation and amplifies the excitement of the Games.

Led by Chair George Black CBE and Chief Executive Officer Phil Batty OBE, Glasgow 2026 Limited is the privately funded Organising Company responsible for delivering the Games. Based in the city centre, the organisation employs nearly 200 people and will generate an estimated £150 million in local economic activity, welcoming 3,000 athletes from 74 nations and territories, supported by 3,000 volunteers and thousands of fans from across Glasgow and beyond.

---

**Commonwealth Sport yn croesawu S4C fel darlledwr ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2026**

**Dydd Gwener 12 Mehefin 2026 –** mae Commonwealth Sport wedi cyhoeddi heddiw y bydd S4C yn darparu darllediadau byw o Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2026, gan nodi'r tro cyntaf i S4C ddarlledu'n fyw o'r Gemau.

Bydd y darllediad yn rhedeg o ddydd Gwener 24 Gorffennaf tan ddydd Sul 2 Awst, ac yn cynnwys deg diwrnod o gystadlu ar draws deg camp a rhaglen chwaraeon Para sy'n torri record, gyda 47 digwyddiad ar draws chwe disgyblaeth gwahanol.

Bydd y bartneriaeth yn sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled Cymru yn gallu dilyn pob eiliad o daith Tîm Cymru yn Glasgow eleni, y 23ain Gemau'r Gymanwlad.

**Dywedodd Katie Sadleir, Prif Weithredwr Commonwealth Sport:** "Rydym wrth ein boddau i groesawu S4C fel partner darlledu swyddogol ar gyfer Glasgow 2026. Mae Gemau'r Gymanwlad yn unigryw gan ddod ag athletwyr a chymunedau ynghyd o bob cwr o'r 74 gwlad a thiriogaeth, ac mae'n wych y bydd cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu profi cyffro, drama ac ysbrydoliaeth y Gemau yn fyw yn eu hiaith eu hunain am y tro cyntaf.

"Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wneud Glasgow 2026 mor hygyrch a chynhwysol â phosib, gan sicrhau y gall mwy o bobl gysylltu â'r eiliadau sy'n gwneud Gemau'r Gymanwlad mor arbennig."

Lauren Salter fydd yn cyflwyno'r darllediad ar S4C ynghyd ag Alun Williams fydd yn gohebu'n fyw o Glasgow bob nos.

**Dywedodd Lauren Salter:** "Mae'n fraint i gyflwyno darllediad S4C o Gemau'r Gymanwlad. Am anrhydedd i'n hathletwyr ar dop eu gêm i gynrychioli eu gwlad ar lwyfan y byd. Dwi'n edrych ymlaen at wylio Tîm Cymru yn dod â'r medalau adref a gwneud Cymru yn falch."

**Dywedodd Llion Iwan, Prif Swyddog Cynnwys S4C:** "Mae S4C yn falch iawn o ddarlledu'n fyw o Gemau'r Gymanwlad am y tro cyntaf. Fel yr unig ddigwyddiad chwaraeon aml-gamp lle mae Cymru'n cystadlu fel Cymru, rydym yn falch i gefnogi Tîm Cymru yn Glasgow. O'r pwll i'r trac, caiff ein gwylwyr brofi gwefr y cystadlu ar S4C, Cartref Chwaraeon Cymru."

Mae Cymru yn un o chwe gwlad yn unig sydd wedi cystadlu ym mhob un o'r Gemau ers iddynt ddechrau yn 1930 ac mae S4C yn falch iawn o bartneru â Thîm Cymru.

**Dywedodd Chef de Mission Tîm Cymru, Gethin Jones:** "Wrth i ni edrych tuag at yr hyn sy'n argoeli i fod yn ymgyrch ysbrydoledig a bythgofiadwy yn Glasgow, ry'n ni'n gwybod y bydd gwylwyr adref yng Nghymru yn cefnogi ein hathletwyr drwy gydol y cystadlu, ac ry'n ni wrth ein boddau y bydd S4C yn eu darparu â holl gyffro'r Gemau."

**Dywedodd Phill Batty OBE, Prif Weithredwr Glasgow 2026:** "O'r cychwyn cyntaf rydym wedi bod eisiau i Glasgow 2026 fod yn Gemau y gall pawb deimlo'n rhan ohonynt, lle bynnag maen nhw a pha bynnag iaith maent yn ei siarad. Mae croesawu S4C fel ein darlledwr Cymraeg yn gwneud yn union hynny, gan roi cyfle i gynulleidfaoedd ledled Cymru ddilyn pob eiliad o daith Tîm Cymru o ochr y pwll i ochr y trac. Rydym yn falch y bydd Glasgow yn llwyfan ar gyfer yr eiliadau hyn ac yn falch y bydd S4C yn helpu eu rhannu gyda chefnogwyr sy'n siarad Cymraeg."

Bydd Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2026 ar S4C yn cael eu cynhyrchu gan Sunset and Vine.

Bydd Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2026 yn cael eu cynnal o 24 Gorffennaf i 2 Awst 2026, gan ddod ag athletwyr o bob cwr o'r Gymanwlad ynghyd am ddeg diwrnod o chwaraeon a dathliadau o'r radd flaenaf.

**DIWEDD**

**Nodiadau i Olygyddion**

**Cysylltiadau**


**Commonwealth Sport:**

Rob Arnott, Pennaeth y Cyfryngau a Chyfathrebu - rob.arnott@commonwealthsport.com / +44 (0) 7787 841604

**S4C:**

Sara Maredudd Jones, Swyddog Cyfathrebu - Sara.Maredudd@s4c.cymru / 0330 5880 369

**Tîm Cymru:**

Cathy Williams, Pennaeth Ymgysylltu - cathy.williams@teamwales.cymru / +44 (0)7786 336007


**Am Commonwealth Sport**

Commonwealth Sport yw'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb am gyfeiriad a rheolaeth Gemau'r Gymanwlad a Gemau Ieuenctid y Gymanwlad, ac am gyflawni gweledigaeth Mudiad Chwaraeon y Gymanwlad: 'Ein Cymanwlad, wedi ei uno trwy chwaraeon'. Ein cenhadaeth yw cyflwyno Gemau ysbrydoledig ac effeithiol; cyffroi a grymuso Athletwyr a phobl ifanc; a gyrru cydraddoldeb mewn chwaraeon a chymdeithas ar draws y Gymanwlad.

Wedi'i sefydlu ym 1930, mae Mudiad Commonwealth Sport yn dod â 74 o genhedloedd a thiriogaethau annibynnol ynghyd gan greu cymuned amrywiol y Gymanwlad o dros 2.5 biliwn o unigolion, sy'n cynrychioli traean o boblogaeth y byd. Gyda'n gilydd, rydym yn sefyll mewn undod, amrywiaeth a chydraddoldeb, gan integreiddio athletwyr Para yn llwyr, yn gyrru cydraddoldeb rhywedd ac yn eiriolwyr dros etifeddiaeth a newid cymdeithasol trwy chwaraeon.

**Am S4C**

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd. Mae S4C yn dosbarthu ystod eang o raglenni gan gynnwys drama, rhaglenni dogfen, newyddion, cerddoriaeth, adloniant, chwaraeon byw a rhaglenni plant. Mae cynnwys ar-lein yn cynnwys ein brand HANSH unigryw gyda chynnwys wedi'i anelu'n bennaf at bobl ifanc 16-34 oed. Mae S4C Clic – chwaraewr S4C a gwasanaeth ar alw yn darparu cynnwys, dal i fyny, deunydd archif a setiau bocsys unigryw. Mae holl gynnwys S4C hefyd ar gael ar alw drwy BBC iPlayer.

**Am Tîm Cymru**

Gemau'r Gymanwlad Cymru (Commonwealth Games Wales) yw'r corff arweiniol ar gyfer chwaraeon y Gymanwlad yng Nghymru a sy'n gyfrifol am ddewis, paratoi ac arwain Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad a Gemau Ieuenctid y Gymanwlad.

Mae Gemau'r Gymanwlad Cymru yn un o'r 74 Cymdeithas Gemau'r Gymanwlad sy'n aelodau o Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad.

Mae Tîm Cymru yn un o’r chwe gwlad sydd wedi cystadlu ym mhob un o’r Gemau ers iddynt ddechrau ym 1930, a oedd yn cael ei alw bryd hynny yn Gemau'r Ymerodraeth.

Gemau'r Gymanwlad y Traeth Aur 2018 oedd Gemau mwyaf llwyddiannus Tîm Cymru, gan ennill 36 o fedalau (10 Aur, 12 Arian, 14 Efydd), a gorffen yn 7fed ar y tabl medalau.

Yn y Gemau diwethaf yn Birmingham 2022, mi wnaeth Cymru ennill 28 o fedalau ar draws 15 o gampau.

**Am Glasgow 2026**

Mae Glasgow 2026 yn addo Gemau'r Gymanwlad hollol wych, yn cael ei gynnal o 23 Gorffennaf i 2 Awst ac yn cyfuno chwaraeon o'r radd flaenaf â gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol a gyflwynir trwy ysbryd bywiog y ddinas. Wedi'u lleoli o fewn coridor wyth milltir, bydd y Gemau yn cynnwys 10 camp a chwech o gampau Para, ar draws pedwar lleoliad eiconig, gan gynnwys Stadiwm Scotstoun, Campws Digwyddiadau'r Alban (SEC), Felodrom ac Arena Syr Chris Hoy a Chanolfan Nofio Ryngwladol Tollcross.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys rhaglen chwaraeon Para sy'n torri record, y cystadlaethau Beicio Trac, Nofio a Phêl-fasged 3x3 mwyaf yn hanes Gemau'r Gymanwlad, a dychweliad Milltir y Gymanwlad mewn Athletau.

Ochr yn ochr â'r Gemau, bydd Gŵyl Glasgow 2026 yn cynnwys rhaglen fywiog o ddiwylliant, cerddoriaeth, chwaraeon a dathliadau dan arweiniad y gymuned. Yn rhedeg o 23 Mai i 9 Awst, bydd yr Ŵyl yn cynnwys talent creadigol o'r radd flaenaf ochr yn ochr â digwyddiadau lleol a gyflwynir gan grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon. Gyda chyfleoedd i bobl o bob oed fod yn egnïol a chymryd rhan, bydd yr ŵyl yn creu dathliad ledled y ddinas sy'n dod â chymunedau ynghyd, sy'n ysbrydoli cyfranogiad ac yn cynyddu cyffro'r Gemau.

Dan arweiniad y Cadeirydd George Black CBE a'r Prif Swyddog Gweithredol Phil Batty OBE, Glasgow 2026 Limited yw'r Cwmni Trefnu sydd wedi’i ariannu’n breifat ac yn gyfrifol am gyflwyno'r Gemau. Wedi'i leoli yng nghanol y ddinas, mae'r sefydliad yn cyflogi bron i 200 o bobl a bydd yn cynhyrchu £150 miliwn mewn gweithgaredd economaidd lleol, gan groesawu 3,000 o athletwyr o 74 o wledydd a thiriogaethau, gyda chefnogaeth 3,000 o wirfoddolwyr a miloedd o gefnogwyr o bob cwr o Glasgow a thu hwnt.